

Loggerheads - Moel Famau

Glan yr afon, mynydd a choedwig gyda golygfeydd eang.

Pellter: 11.2km / 7 milltir

Amser: Tua 4 - 4.5 awr

Parcio a chychwyn: Parc Gwledig Loggerheads (£) neu Goed Moel Famau (£) islaw pwynt 3 y daith

Cyf. Grid: Loggerheads SJ198626, Coed Moel Famau SJ174613

Graddfa: Egniol (codi'n serth)

Cyfleusterau: Canolfan Cefn Gwlad, Caffi Florence, toiledau yng Nghanolfan Loggerheads; tafarn We Three Loggerheads, ffôn: 01352 810337. Am deithiau byrrach o gwmpas Loggerheads mynnwch gopi o'r Daith Darganfod 3km (peth ar i fyny) neu'r Llwybr Diwydiannol 3km (gwastad)

Riverside, mountain and forest with panoramic views

Distance: 11.2km / 7 miles

Time: Allow 4 - 4.5 hours

Parking and start: Loggerheads Country Park (£) or Coed Moel Famau (£) below point 3 on walk

Grid ref: Loggerheads SJ198626, Coed Moel Famau SJ174613

Grade: Strenuous (steep ascent)

Facilities: Countryside Centre, Caffi Florence, toilets at Loggerheads CP; We Three Loggerheads pub, tel: 01352 810337. For shorter walks around Loggerheads pick up a copy of the 3km Discovery Trail (some ascent) or 3km Industrial Trail (flat)



Y Daith Gerdded

1. O faes parcio Loggerheads, cerddwch yn ôl tua'r fnyedfa a thueddu i'r dde ac i'r llwybr wrth y postyn 'Moel Famau'. Troi i'r dde i'r ffordd a cherdded ar i fyny am 800m i'r Gyffordd 'T'. Trowch i'r dde (arwydd 'Cilcain), ac ymhen 25m trowch i'r chwith drwy'r giât (gyferbyn â'r mynegbost 'Moel Famau'). Ymlaen am 200m yna drwy giât arall. Anwybyddwch y llwybr ar y dde. Daliwch ymlaen, croesi camfa/giât arall ac anwybyddu'r llwybrau ar y ddwy ochr. Ymhen 100m ewch drwy'r giât ac ymlaen ar hyd ochr dde'r cae am 225m. Wrth y mynegbost, trowch i'r chwith i fyny'r llwybr ac yna i'r dde dros y gamfa sydd cyn y giât a chroesi cornel y cae. Croeswch y gamfa nesaf ac ewch i'r dde ar hyd ymyl y goedwig.

2. Croeswch y giât/camfa ac yna ewch i'r chwith dros gamfa i'r goedwig, arwydd 'Coed Moel Famau' (ewch yn syth ymlaen i ddilyn y llwybr byrrach ond serthach i Foel Famau). Dilynwch y llwybr naturiol ar i fyny am 25m. Trowch i'r de i ffordd y goedwig a'i ddilyn wrth iddo droi i'r chwith ar unwaith, arwydd 'Coed Moel Famau'. Daliwch ar y llwybr gan godi'n raddol a dilyn y saethau gwyn. Pan ddowch at ffordd y goedwig, trowch i'r chwith a dilyn y ffordd o gwmpas y bryn, gan anwybyddu'r llwybrau ar y chwith a'r dde.

3. Ar gyffordd lle mae'r llwybr beicio yn troi'n siarp i'r dde, peidiwch â mynd ar i fyny ble mae arwydd 'Coed Moel Famau', ond ewch ar y llwybr

llai gan dueddu i'r dde ar i fyny a ddilyn arwydd 'Twr y Jiwbill'. Dilynwch y llwybr naturiol hwn i ffordd goedwig. Ewch i'r chwith a dal ymlaen i groesffordd llwybrau. Trowch i'r dde ar i fyny, bydd saethau coch a glas. Ymhellach i fyny, tueddwch i'r chwith ar ffordd yn y llwybr gan ddilyn y saethau glas. Daliwch ymlaen gan ddilyn y llwybr glas wrth iddo droi i fyny i gopa Moel Famau. Ewch drwy giât a throi i'r dde i gyrraedd Twr y Jiwbill.

4. Ewch ymlaen heibio'r copa a chymryd y llwybr clir ar i lawr yr ochr arall. Ewch drwy'r giât/camfa a dal i fynd i lawr. Ar groesffordd y llwybrau, trowch i'r dde ar y llwybr ceffylau (saethau glas). Ewch drwy giât ymhen 200m a dal ar i lawr wrth ochr wal gerrig. Croeswch giât/camfa a dal ar i lawr i gyffordd y llwybrau, arwydd 'Loggerheads', gan fynd heibio olion adeilad decoi brics Rhyfel Byd II ar y chwith. Ewch drwy'r giât a dilyn y llwybr ymlaen gan fynd drwy ddwy giât arall. Ar y gyffordd, ewch i'r chwith i'r lôn, arwyddedig Loggerheads, a cherdded i lawr y ffordd.

5. Croeswch y ffordd a'r gamfa sy'n wynebu, wrth arwydd 'Loggerheads' i lwybr cuddiedig. Croeswch y gamfa ac i lawr y cae i gamfa arall. Croeswch y dreif a mynd ymlaen drwy'r giât ac ar y llwybr arwyddedig o'ch blaen. Croeswch ddwy gamfa arall a phont dros yr Afon Alun. Ewch drwy'r gamfa wasgu, a thueddu i'r chwith ar i fyny. Ar ben y bryn trowch i'r dde i lwybr y Lîf. Pan fydd y llwybr yn fforddio cadwch i'r chwith ar y llwybr lletach ac ymlaen i'r lôn. Ewch i'r dde ac yna ymlaen ar y llwybr llydan arwyddedig



Loggerheads - Moel Famau



'Loggerheads' a heibio Alyn Kennels. Ewch drwy'r giât mochyn sydd y tu ôl i'r cenela a dilyn y llwybr yn ôl i'r Parc Gwledig. Anwybyddwch y bont bren ar y dde gan ddal ar y llwybr ar lan yr afon. Croeswch y bont garreg a cheredded yn ôl i'r Ganolfan Cefn Gwlad a'r maes parcio.

The Walk

1. From Loggerheads car park walk back towards car park entrance and bear right onto path at post, signed Moel Famau. Turn right onto road and walk uphill for 800m to T-Junction. Turn right (signed Cilcain) and, after 25m, turn left through a gate (opposite fingerpost signed Moel Famau). Continue ahead for 200m then go through another gate, ignoring path on right. Continue ahead, crossing another stile/gate, and ignoring paths on right and left. After 100m go through a gateway and continue along right-hand field boundary for 225m. At fingerpost turn left up track then right over stile before gate and cross field-corner. Cross next stile and turn right along forest edge.

2. Cross gate/stile then turn left over a stile into the forest, signed Coed Moel Famau (or continue ahead for alternative shorter but steeper route to Moel Famau). Follow the natural path uphill for 25m. Turn right onto forest track and follow it as it bends immediately left, signed Coed Moel Famau. Continue on this path gently rising and following white arrows. At forest track turn left and follow the track along the hillside, ignoring paths on left and right.

3. At junction where cycle path turns sharp right, do not continue downhill, signed Coed Moel Famau, but take minor path bearing right uphill, signed Jubilee Tower. Follow this natural path to a forest track. Turn left and continue to a path crossroads. Turn right uphill, marked with red and blue arrows. Further uphill bear left at path fork, following blue arrows. Continue following the blue trail as it winds up to Moel Famau summit. Go through a gate and turn right to reach the Jubilee Tower.

4. Continue past the summit and take the clear



Ffynna'r pila gwyrdd mewn coedwig conifferau
Siskins thrive in the conifer forest

path downhill on the opposite side. Go through a gate/stile and continue descending. At path crossroads turn right along a bridleway (blue arrows). Pass through a gate after 200m and continue downhill alongside a stonewall. Cross gate/stile and continue downhill to path junction, signed Loggerheads, passing the brick remains of a World War II aeroplane decoy centre on the left. Go through gate and follow path ahead, going through two more gates. At junction turn left onto lane, signed Loggerheads, and walk down to the road.

5. Cross road, and over the stile opposite, beside Loggerheads sign, onto a concealed footpath. Cross stile into field and continue down field to another stile. Cross drive and continue through gate along waymarked path ahead. Cross two more stiles and the footbridge over the River Alyn. Go through squeeze stile and bear left uphill. At top of hill turn right onto the Leete Path. Where the path forks keep left on wider path and continue to the lane. Turn right and then continue ahead on track, signed Loggerheads Country Park, passing Alyn Kennels. Go through kissing gate behind kennels and follow path back into the Country Park. Ignore wooden bridge on right and continue along riverside path. Cross over stone bridge and walk back to Countryside Centre and car park.

Roedd Loggerheads yn ganolfan bwysig y diwydiant plwm am ganrifoedd nes i'r mwyngloddiau gau yn 1872. Enwir Llwybr y Lit o'r gair am y sianel ddŵr oedd yn 2 fetr o led yn wreiddiol ac yn 1.5 o ddyfnder, adeiladwyd yn 1823. Roedd y sianel yn gwyro'r dŵr o'r afon, heibio tyllau llyncu yng ngwely'r afon (y bydd yr afon yn diflannu iddynt am ran o'r flwyddyn) er mwyn darparu cyflenwad o ddŵr cyson i'r olwynion dŵr oedd yn gyrru'r peiriannau mwyngloddio ac yn pwmpio'r mwyngloddiau.

Bu Loggerheads yn atyniad poblogaidd i ymwelwyr ar ddechrau'r 20fed ganrif. Cafodd Gwmni Bysau Crosville y tir yn 1926 a sefydlu ystafelloedd te, gerddi a llyn cychod i'r bobl a ddeuai am drip diwrnod.

Loggerheads was a major lead mining centre for several hundred years until the mines closed in 1872. The Leete Path takes its name from the 'leat' - a water channel, originally 2 metres wide and 1.5 deep, built in 1823. It diverted water from the river past swallow holes in the limestone bed (into which the river disappears part of the year) to provide a steady supply to the waterwheels that powered mining machinery and water pumps in the mines.

Loggerheads has been popular with visitors since the early 20th century. The Crosville Motor Bus Company acquired land in 1926 and established tearooms, gardens, bandstand and a boating lake for day-trippers.



Caffi Florence yn darparu dewis o goffi a the Marchnad Deg, cawl cartref, cinio, te pnawn traddodiadol, teisenau cartref, hufen iâ a byrbrydau. Ar agor 10am-5pm bob dydd ac eithrio dydd Llun. Ffôn: 01352 810397; www.caffiflorence.co.uk

Mae Caffi Florence serves a range of fairtrade teas & coffee, homemade soups, lunches, traditional afternoon teas, homemade cakes, ice creams & snacks. Opening hours 10am-5pm every day except Monday. Tel: 01352 810397; www.caffiflorence.co.uk

